CYFRES YR 20FED GANRIF.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

Yr Ymofynydd

CYF. 15. RHIF 12.] RHAGFYR, 1915. [PRIS 2c

CYNWYSIAD.

DYDD NADOLIG.
ODDIAR Y TWR.
YR AWR DDISGLAER. Anthropos
GOLEUDY LES SANGUINAIRES.
YMSON Y MYFYRIWR.
"HANNER CAN PWYNT DROS UNDODIAETH."
PRIODASAU. MARWGOFION.
MANION AC HANESION.
AT EIN GOHEBWYR.



Y GWIRIONEDD
A'CH RHYDDHA CHWI.

ARGRAFFWYD GAN J. D. LEWIS, GWASG GOMER, LLANDYSSUL

YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.

Pris 2g. y mis ; drwy y *Post*, 2s. 6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygydd erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

YN EISIEU.

Y GENINEN. Rhifyn Gorphenaf 1905.

Anfoner i Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

Geiriadur Newydd Spurrell

Cymraeg a Saesneg. Argraffiad Diweddaraf.

Dan olygiaeth J. BODVAN ANWYL.

Wedi ei helaethu a'i adnewyddu.

Pris 3/6 nett. - - Cludiad 3c. y copi.

I'W GAEL O SWYDDFA'R YMOFYNYDD, LLANDYSSUL.

CYFRES Y FIL.

Yn cynhwys y cyfrolau canlynol:—

GWILYM MARLES . .	**IOLO MORGANWG . . .**
MYNYDDOG	**CERRIG Y RHYD . . .**
ALUN	**Dr. OWEN PUGHE . .**
SION CENT	**GWAITH GLANYGORS .**
YR HEN FICER . . .	**IEUAN GLAN GEIRIONYDD**
GEIRIADUR CYMRAEG	**CALEDFRYN. . . . . .**

Pris Swllt. Trwy y Post 1/2.

I'W CAEL O SWYDDFA'R YMOFYNYDD, LLANDYSSUL

YR ⚜ YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"*Profwch bob peth : deliwch yr hyn sydd dda.*"

CYFRES NEWYDD.] RHAGFYR, 1915. [CYF. XV. RHIF 12.

DYDD NADOLIG.

GELWIR y dydd hwn gan y Saeson yn *Christmas – Christ-mass*, hyny yw, yr offeren a gynelid yn mhlith y Pabyddion ar y 25ain o Ragfyr, er anrhydedd i Grist. Sefydlwyd yr wyl hon gan y Pabyddion yn y bedwaredd ganrif, hyny yw, tua 350 mlynedd ar ol marwolaeth Crist. Dathlid genedigaeth a bedydd yn y Dwyrain gyda'u gilydd ar y 6fed o Ionawr, a gelwid y dydd yn Wyl Ystwyll—Epiphany=amlygiad, am mai ar y dydd hwnw yr amlygwyd yr Iachawdwr i'r byd; ond yn y Gorllewin, o dan awdurdod Esgob Rhufain, cyfyngid y dathliad i'r 25ain o Ragfyr, y dydd a gedwir yn gyffredin heddyw yn y byd Cristnogol.

Am ba reswm neillduol y dewiswyd y dydd hwn, ofer fyddai holi, ar ol treigliad cymaint o amser. Y mae'r Archddiacon Blackburn wedi awgrymu y posibilrwydd o'i gysylltiad a geiriau yn y drydydd benod o efengyl Ioan, lle y dywed yr Iuddewon wrth Ioan Fedyddiwr, fod y dyn y dygai efe dystiolaeth am dano wedi dechreu bedyddio a bod ganddo ganlynwyr lawer, ac iddo yntau gymeryd yr achlysur hwnw i fawrhau caritor a swydd ein Iachawdwr mewn cymhariaeth i'r eiddo ei hun, gan ychwanegu (Ioan 5 : 30)—"Rhaid iddo ef gynyddu ac i minnau leihau." Oddiwrth y geiriau tynir y casgliad tebygol i Ioan Fedyddiwr gael ei eni ar y dydd hwyaf, fod y dyddiau y pryd hwnw yn dechreu byrhau, ac wrth yr un rheol fod yr Iachawdwr wedi ei eni y dydd byrraf, am fod y dyddiau sydd yn canlyn yn raddol yn cynyddu.

Tystia Chrysostom ei fod yn draddodiad yn ei amser ef fod ein Harglwydd wedi ei eni ar y dydd a gedwir genym ni yn awr. "Och i'r ffaith!" ebe efe, "fod mater y gesyd yr eglwys gymaint o bwys arno wedi ei adael ar sail dywodlyd *traddodiad* 380 mlynedd ar ol iddo gymeryd lle." Ond, fel mater o ffaith, y mae tystiolaeth Chrysostom o barthed i'w gadwraeth boreol ar y 25ain o Ragfyr yn amheus, canys fe ddywed yn bendant, pan yn cyfeirio ato, nad oedd braidd deng mlynedd er pan yr hysbyswyd ef o'r dydd iawn; addefiad sydd yn profi fod cadw coffa'r gylchwyl yn newyddian beth 400 mlynedd ar ol genedigaeth Crist.

Y mae diwinyddion dysgedig wedi gosod genedigaeth Crist bron yn mhob mis o'r flwyddyn. Gesyd Lightfoot ef, fel llawer eraill yn mis Medi. Mae'n bosibl fod llai o brawf dros fis Rhagfyr nag un mis arall o'r flwyddyn.

Olrheinia Syr Isaac Newton yr wyl i ddechreuad paganaidd. Trwy ddylanwad Julius Cæsar sefydlwyd fod haul-orsaf y gauaf—*the Winter Solstice*—y dydd byrraf i fod ar y 25ain o Ragfyr, yr hwn y cyfrifai'r paganiaid yn ddydd genedigaeth yr haul, gan mai ar y dydd hwnw yr oedd yn dechreu troi yn ol. Cyfleodd y Cristnogion yr un amser at haul y cyfiawnder, a cheir sylwadau i'r perwyl hyny, tua'r amser y gwnaethpwyd y penderfyniad, drosodd a throsodd yn ngweithiau Chrysostom, Ambrose, &c.

Ymhyfrydai'r paganiaid yn y gwyliau i'w duwiau, ac yr oeddynt yn anfoddlon cael eu hamddifadu o honynt. Gan hyny, er mwyn hyrwyddo eu troedigaeth, trodd Gregor y prif wyliau paganaidd yn wyliau i'r seintiau a'r merthyron. Felly, heddyw cynhaliwn ein Nadolig gydag addurniadau tebyg i'r paganiaid. Dyna ddechreuad defnyddio iorwg, cynal gwleddoedd, chwareuon, &c.

Rhoddid i fyny ddiwedd y flwyddyn yn yr holl wledydd paganaidd i wleddoedd crefyddol. Dechreuai'r hen Saxoniaid eu blwyddyn ar ddydd Nadolig. Oddiwrthynt hwy y daw yr *Yule-Log* a'r *Christmas Block*, y rhai a ddefnyddid yn golfa am ddychweliad yr haul ac estyniad y dydd. Llosgid y bloc fel arwyddlun o ddychweliad yr haul a chynydd y gole a'r gwres.

Oddiwrth y paganiaid hefyd y benthyciwyd yr *Yule-Cake*, y Deisen Nadolig, math o ddelw baban wedi ei wneud o does, yr hwn yn mhen amser a ddaeth i gael ei ystyried yn ddelw o'r baban Iesu; felly hefyd Canwyllau Nadolig, ac addurno'r eglwysi a'r tai a dail bythwyrddion. Feallai mai oddiwrth y Pabyddion y daeth y Blwch Nadolig, y *Christmas-box*. Yr oedd gan yr offeiriaid Pabaidd eu offeren (*mass*) i bob peth. Os byddai llong yn mynd allan i'r India, yr oedd gan yr offeiriaid flwch ynddi, o dan nawdd rhyw saint, a disgwylid i'r bobl osod rhywbeth yn y blwch, yr hwn nid oedd i gael ei agor nes dod adref. Dyna ystyr y ddiareb—*No penny, no Paternoster*. Y mae gan y Cymro ddiareb gyffelyb—Diwedd y gân yw y geiniog.

Nid oes un awdurdod Beiblaidd dros ddathlu'r Nadolig. Gadewir i ddoethineb pob dyn a phob cymdeithas i benderfynu pa un a gadwant y Nadolig mewn modd crefyddol. Tuedda'r apostol Paul yn hytrach i'w dibrisio—cadw yr ydych ddyddiau a misoedd ac amseroedd, a blynyddoedd. Y mae arnat ofn am danoch, rhag imi boeni wrthych yn ofer (Gal. 4: 10, 11). Gallwn fod yn ddiolchgar, wrth gwrs, nad gwasanaeth corff yw Cristnogaeth, nid crefydd amserau a thymorau, bwydydd a diodydd yw. Gallwn gofio geiriau'r Athraw—Er mwyn hyn y'm ganed, ac er mwyn hyn y daethum i'r byd, fel y tystiolaethwn i'r gwirionedd (Ioan 18: 37), ac ar yr un pryd gynal a chadw y dydd yn hollol ddiniwed, yn ddydd o undeb—*re-union* teuluaidd, yn gysgod o'r *re-union* mwy parhaol hwnt i'r llen.

E.

ODDIAR Y TWR.

YMDDENGYS fel pe fod Mr. Campbell wedi ei dynghedu i fod yn

ADERYN Y DDRYCIN

y byd crefyddol. Ychydig flynyddau yn ol perodd gynhwrf rhyfeddol drwy ei dduwinyddiaeth newydd. Bu hyn yn achlysur i ddwyn anghydfod i eglwysi, i rannu lle'r oedd digon o raniadau yn barod, ac i dorri cyfeillgarwch oes rhwng miloedd o fobl grefyddol. Tawelodd yr ystorm hono ar ol rhuo o honi am rai blynyddau, ond nid heb adael ei hol yn annileadwy ar ei llwybr. Gyda bod y tawelwch yn dechreu ymsefydlu, dyna ystorm arall a achoswyd gan ei fynediad drosodd i fynwes yr Eglwys Sefydledig; nid i fynwes "yr hen fam" fel y dywedir yn gyffredin; camddarluniad o honi fyddai dweyd hyny, rhaid myned gam—cam byr, y mae'n wir—ym mhellach cyn dod at fam yr holl eglwysi, sef, yr Eglwys Gatholig neu'r Eglwys Rufeinig. Nid gwiw celu fod hyn wedi peri cryn syndod i'w edmygwyr, fel y mae wedi dwyn llawenydd i Eglwyswyr. Ni fu'r ystorm hon, fodd bynag, mor bell-gyrhaeddol ei heffaith a'r un flaenorol. Yn wir, ag ystyried y safle bwysig lanwyd gan Mr. Campbell yn mywyd crefyddol Prydain yn ystod y dwsin blynyddau diweddaf, y syndod yw fod ei fynediad drosodd wedi achosi mor lleied o ferw. Gellir priodoli hyn efallai i'r rhyfel. Y mae meddwl y wlad wedi ei ganoli yn rhy lwyr ar yr

ALANAS FAWR HON

i ddim arall ennill ei sylw. Pwy fedr roi ei feddwl ar ddigwyddiad mor ddi-bwys a newid enwad pan mae'r gwledydd mewn gornest mor waedlyd a dinystriol? Daeth sŵ i'n clustiau fod Mr. Campbell yn bwriadu uno a'r Eglwys, achosodd hyn dipyn o gynwrf ar wyneb y dwfr; ond aeth ei effaith heibio yn fuan, a bydd Mr. Campbell un o'r dyddiau nesaf yn darllen credo Sant Athanasius mor ddidaro a phe bae hyny y peth mwyaf naturiol posibl iddo. Eithr nid ymddengys ei fod wedi llwyddo i lwyr

YMDDIHATRU O'I HEN EGWYDDORION.

Dyna, fodd bynnag, y casgliad naturiol oddiwrth un o ysgrifau diweddaraf mewn erthygl yn dwyn y teitl "a ydyw'r marw yn fyw?" Deil fod y marw yn dechreu ei yrfa y tu arall i'r llen yn hollol lle y terfynodd y tu yma iddi. Defnyddir y gair "marw", wrth gwrs, yn ei ystyr arferedig—torri'r cysylltiad rhwng corff ac enaid. I ni a gredwn ym marhad bywyd nid oes dim yn newydd yn y syniad hwn. I bob un a edrych ar faterion bywyd ac enaid oddiar safle datblygiad, dyna yw'r unig ffordd posibl i edrych ar y mater. Y mae'r corff yn

methu, a'r ysbryd (neu'r enaid), fel y dywed un ysgrifenydd Beiblaidd yn dychwelyd at Dduw, yr hwn a'i rhoes; ac yna, y mae'r enaid yn uniongyrchol yn dechreu ar yrfa nad oes, i'n tyb ni, derfyn iddi. I'r ymholiad sut y mae hyn yn bosibl, yr ateb yw na ellir dweyd. Ni fedr neb ddweyd. Nid yw'r llygad yn gallu treiddio drwy y llen ar derfyn yr yrfa ddaearol. Dyna orwel ein bywyd materol, ac ni welwn tu hwnt iddo. Ond er hyn anturiaf ddweyd gyda'r bardd, "Felly fy nghred," nid yw'r cwbl yn terfynu yn angeu.

Nid yr uchod yw'r Syniad Cristionogol.

Rhaid cyfaddef hyn. Prin y gellir dweyd mai dyna syniad Iesu ei hun. Yn wir, y mae yn syndod mor lleied ddwedodd efe ar fater mor bwysig. Pe crynhoid at eu gilydd yr oll o'i ymadroddion ar y rhai y gellir anturio sylfaenu cred ym mharhad bywyd, ni fyddent ond ychydig—ond ychydig iawn mewn cymhariaeth i bwysigrwydd y pwnc. Ni ellir casglu oddiwrth hyn na chredai ef yn y syniad neu na osodai un pwys arno. Y mae gennym ddigon o dystiolaethau i'r gwrthwyneb—digon, er mai ychydig ydynt. Ond ni raid petruso dweyd nad yr uchod yw syniad ysgrifenwyr ereill y Testament Newydd ar y pwnc o fywyd ar ol angeu. Heb lanw gofod gyda dyfyniadau, gellir symio i fyny syniad ysgrifenwyr y Testament Newydd yn fyr fel hyn—fod y marw yn aros mewn

Cyflwr o Anymwybodolrwydd

hyd ryw adeg neillduol pan y dihunir hwynt, ac y dygir rhai o honynt i wynfyd, ereill i wae. A barnu wrth yr ohebiaeth achlysurwyd gan erthygl Mr. Campbell, dyna syniad cyffredin y byd Cristionogol iawnffyddiog; a seiliant eu cred ar y Testament Newydd. Braidd y mae angen dweyd mai a safle Mr. Campbell y cydymdeimlaf—ie, y cydymdeimla'r oll o'n darllenwyr, fel y credaf. Ar fater o'r fath hyn, na ellir bod yn gwbl sicr yn ei gylch,

Rhaid Dewis y Syniad Goreu.

A'r syniad o ddatblygiad parhaol yw'r goreu—i mi. Wrth ddefnyddio'r ymadrodd "datblygiad parhaol," ni olygaf fod y datblygiad yn un di-dôr. Y mae i'r syniad o ddatblygiad ei syniad cyferbyniol—y syniad o ddirywiad. Eithr nid yw'r dirywiadau amgen na digwyddiadau ar y ffordd—digwyddiadau a arafant yr yrfa, ond na fedrant roi atalfa arni. Dirwynaf y llith hon i derfyn drwy wneud un sylw—i'r perwyl a ganlyn: methaf ddeall sut y medr Mr. Campbell, gau synied fel y gwna am ddyfodol bywyd yn ngoleu datblygiad,

DDARLLEN GWASANAETH CLADDU EGLWYS LLOEGR.

Y mae'r ddau safle yn hollol anghymodlawn—safle Mr. Campbell ac eiddo gwasanaeth claddu y Llyfr Gweddi Gyffredin. Y mae efe, rhwydd gyfaddefaf, yn feistr yn y gelfyddyd o gymodi yr hyn a ymddengys i'r mwyafrif yn anghymodlawn. Ond y mae terfyn i hyn fel i bob peth.

GWYLIEDYDD.

YR AWR DDISGLAER.

GAN ANTHROPOS.

I.

Dywed un beirniad Seisnig mai'r peth mwyaf barddonol yn ngwaith yr emynydd cynyrchiol hwnw—Doctor Isaac Watts—ydyw deuair a geir mewn pennill lled adnabyddus i blant—

"How doth the little busy bee
Improve each shining hour."

Moeswers ydyw y pennill; ond y mae ynddo un ymadrodd sydd yn llettach na byd y wenynen, ac efallai, nad oedd yr awdur yn meddwl am yr ystyr ellid ei roddi iddo. Y gair y cyfeiriai y beirniad ato ydyw y *shining hour* ar ddiwedd yr ail linell.

II.

'Yr awr ddisglaer.' Y mae bonno yn bod. 'Yr awr wen oleu,' yn ngeiriau Pantycelyn. 'Yr awr euraidd,' yn ol desgrifiad Bunyan yn 'Nhaith y Pererin.' Ond yr hyn a bwysleisir yn emyn Doctor Watts ydyw ei *disglaerdeb*. Y mae oriau eraill yn dywyll a phrudd, fel y mae heolydd tref a phentref yn yr wythnosau hyn yn ystod yr hwyr. Cyfnod y *lights out* ydyw hwn, mewn mwy nag un ystyr. Ond, yn ei thro, fe ddaw yr 'awr ddisglaer,' a gogoniant a harddwch ar ei gwisgoedd. Mor loew ei gwedd, ac mor ddi-eol ydyw ei dyfodiad! Gwyn ein byd os gallwn ei chroesawu pan y del.

III.

Y mae gan Natur ei 'hawr ddisglaer,' hyd yn oed yn nhrymder y gauaf. Daeth oriau felly bore heddyw. Gwelid cnwd o eira ar fynyddoedd Eryri, a'r llwydrew ar y gwastadedd. Ond cyfododd yr

haul mewn ysplander, a disglaeriai y byd. Heulwen ar yr eira gwyn! Wrth syllu arno yn y pellder gwelid ei liw yn newid—y gloewder yn mynd yn gryfach, yn danbeidiach, fel grisial, a diemwnt coeth. Ac yr oedd y llwydrew ar y meusydd a'r gwrychoedd cyfagos yn troi yn berlau cannaid, ac yn adlewyrchu pelydrau tanbaid yr haul.

IV.

Teyrnasai rhyw dawelwch dwys-dyner ar y wlad. Nid oedd awel yn ymsymmud yn mrigau'r coed. Gwelid y llanw tawel ar y Fenai, a rhyw niwl-orchudd teneu, fel gwawn, yn darn-guddio ymylon Môn, gan beri i'r ynys dlos ymddangos fel gwlad hud a lledrith. Yr oedd rhyw 'newydd wyrth' yn yr olygfa. Pwy fuasai'n disgwyl gweled y fath dlysni a hudoliaeth ar fore ym mis Tachwedd? Dyna'r 'awr ddisglaer,' yn nghanol ystormydd a gerwindeb yr elfenau. Ar fin y ffordd gwelais nifer o ddynion yn trwsio gwifrau y pellebyr oeddynt wedi eu torri gan ruthr y gwynt. Tebyg ydyw hanes bywyd, ar lawer adeg. Y mae gwifrau cymundeb yn cael eu hysgar, ac nid oes un genadwri yn dod o'r nefolion leoedd. Ar fore fel hyn gweddus ydyw trwsio y gwifrau, fel y caffom gymdeithasu a chyfrinion yr 'awr ddisglaer,' ar ei rhawd. A phan y daw y mae'n bwysig gwneyd defnydd dyladwy o honi. Nid erys yn hir. Ofer ydyw codi 'pebyll' ar y fath adeg. Gwell ydyw syllu ar y gogoniant ac fynydd y gweddnewidiad. Rhoddi cyfle i hwnnw osod ei argraff ar lygaid y meddwl, a threiddio i lawr i ddyfnderau yr enaid. Fel yna y daw anweledig ddefnydd pob gweledigaeth. Nis gellir rhoddi arcbeb am dani ymlaen llaw. Ond y mae yr 'awr ddisglaer' yn ei chyflwyno i'r meddwl sydd yn barod i'w derbyn. Dichon nas gellir ei deffinio ar y pryd. Hwyrach mai yn ystod oriau eraill, oriau unig a distaw, y try y weledigaeth yn sylwedd, mewn rhyw ffurf neu gilydd.

V.

Dyna hanes llenyddiaeth. Y mae yr hyn sydd wedi cael 'dinas barhaus' yn gynyrch rhyw 'awr ddisglaer' yn enaid y llenor a'r bardd. 'Bydded goleuni' ydyw genesis pob creadigaeth newydd. 'Mewn llawenydd yr ewch allan' ydyw y rheol yn myd meddyliau, 'ac mewn hedd y'ch arweinir.' Y mae yr hyn sydd yn gweini mwynhad i eraill yn gynyrch rhyw fwynhad a pher-lewyg yn ysbryd yr awdwr. Dywedir fod Creawdwr y bydoedd yn 'llawenychu yn ei weithredoedd.' Ac y mae dyn, yn ei dro, yn dod yn dipyn o greawdwr yn ei fyd ei hun. Dyna air yr hynafiaid am y bardd. Efe oedd y 'Poet'—un yn 'gwneyd' pethau. Ac y mae yna ryw hyfrydwch mewn 'gwneyd' nas gall yr anghyfarwydd gyfranogi ohono. Byddaf yn hoffi gwrando ar ddyn yn adrodd hanes ei feddwl—sut y daeth englyn, neu ganig, i fod. 'Wele, gwnaethpwyd pob peth yn newydd.'

VI.

Felly yr ymddengys dan gyfaredd yr 'awr ddisglaer.' Yr oeddwn yn cyd-gerdded efo hen gyfaill, talentog, y noson o'r blaen, ac yntau yn adrodd hanes canig a gafodd—nid oedd yn arfer y gair 'cyfansoddi,' fel y mae arfer rhai. 'Yr oeddwn ar ymweliad a fy hen ardal,' meddai, 'ac mi eisteddais o dan hen goeden lle y byddwn yn arfer chwareu pan yn fachgen; ac yn y munudau hynny mi ges y gân. Yr oedd y llinellau yn dod ataf, rywsut, heb geisio, fel pe buasai rhyw lais anweledig yn eu sibrwd yn fy nghlust.'

VII.

Ie, dyna'r gyfrinach. Dichon nad ydoedd yn gân fawr, yn ystyr feirniadol y gair; ond yr oedd ynddi y peth hwnnw nas gellid ei gael ar wahan i'r profiad oedd yn enaid yr awdwr. Yr oedd gwifrau y pellebyr wedi eu trwsio, ac yntau mewn cymundeb a'r gorphenol. Daeth y pell yn agos, a cherddai ysbrydoliaeth drwy randir ei fyfyrdodau—

Cana dy gân, fy mrawd,
Cana, a doed a ddelo;
Bu Miltwn unwaith yn dlawd,
A 'Pharadwys' o dan ei ddwylo!

Nid ydym yn gosod yr hen fardd Cymreig ar lefel Miltwn; ond, pan yn llinellu ei gân adgof, ni phetruswn ddweyd fod y ddau yn yr un byd! Yr oedd 'Paradwys' Miltwn yn ehangach, a mwy gogoneddus; ond yr oedd y Cymro, dan goeden mebyd, yn rhywle ar y cyffiniau. Daeth yr hen Baradwys i'w wyddfod, a murmurai adgofion claerwynion yn mrigau'r pren. A phan adroddai yr hanes, ar noson oer yn Nhachwedd, daeth yr 'awr ddisglaer' yn ol drachefn, a melus oedd ei goleuni a'i rhin.

Cyngor tad i'w fab: Byddwch ofalus iawn i beidio dangos unrhyw brudd-der; gwisgwch wyneb siriol. Symud yn boenus mae'r byd, ac am hyny mae'n ddiolchgar i'r hwn a'i gwna'n llawen. Pe gwnaem i gyd fyned i fewn i'r fusnes o greu llawenydd, byddai'n llawer mwy hapus byd.

Ni ry'r Arglwydd ar d'ysgwydde
Drymach baich na ellych odde',
Ond fe ddengys ryw ddiangfa,
Pan fo'r groes yn pwyso dryma'.

GOLEUDY *LES SANGUINAIRES*.

(Alphonse Daudet.)

Ni fedrais gysgu neithiwr. 'Roedd gwynt y gogledd-orllewin yn farus, a chadwodd rhuadau ei lais cryf fi yn effro tan y bore. 'Roedd y felin oll yn crecian, gan fantoli'n drwm ar ei hadenydd anafus, y rhai a chwibanent yn y gwynt fel hwyliau llong. Hedfanai llechi'r tô yn yfflon tua'r llawr. Yn y pellter, 'roedd y pinwydd guddient y bryn yn ymysgwyd a siffrwd yn y gwŷll. Gallswn dybio fy mod ar ganol y môr.

Mae hyn yn fy atgofio am y nosweithiau o anhunhyfryd gefais dair blynedd yn ol, pan oeddwn yn byw yng ngoleudy *Des Sanguinaires*, obry ar lannau Corsica, yng ngenau morgainc Ajaccio, congl brydferth arall oeddwn wedi ddarganfod yno er mwyn bod wrth fy hun a breuddwydio. Meddyliwch am ynys wawrgoch, wyllt ei hagwedd, a'r goleudy ar un penrhyn iddi, ac ar y penrhyn arall hen dŵr Genoaidd, lle cartrefai eryr oedrannus yn yr amser pan oeddwn i yno. Obry, ar lan y dŵr, 'roedd tloty adfeiliedig, a llysiau gwylltion yn ei oresgyn ar bob llaw. A gwelid ceunentydd, prysglwyni, clogwyni mawrion, rhai geifr gwylltion, a cheffylau bychain yr ynys yn ymbrancio a'u mwng yn y gwynt. Ac yna, i fyny yn uchel fry, 'roedd chwyrnell o fôr-adar, a'r goleudy, gyda'i lwyfan gwyn o waith maen, lle cerddai'r gwyliedyddion yma a thraw, a'r drws gwyrdd ar lun bwa pigfain ; y tŵr bychan o fetel tawdd, ac uwchben yr oll y llusern fawr a'i gwydrau yn fflamio fel yr haul, ac yn goleuo o'n cylch hyd yn oed yn ystod y dydd. Dyna ynys *Des Sanguinaires*, fel y gwelais hi eto neithiwr, wrth wrando ar ru y gwynt yn y pinwydd. I'r ynys hudolus hon yr awn, cyn i mi gael melin, i ymneilltuo weithiau, pan fyddai arnaf eisieu'r awyr agored a llonyddwch.

Pa beth a wnawn yno?

Yr hyn wnaf yma, a llai na hynny. Pan fyddai gwynt y gogledd-orllewin neu'r gogledd-wynt yn chwythu yn rhy gryf, awn i eistedd rhwng dwy graig yn ymyl y dŵr, yng nghanol y gwylain, yr adar duon, a'r gwenoliaid, ac aroswn yno bron drwy'r dydd, yn y math hwnnw o syfrdandod a phrudd-der melus a ddaw o fyfyrio ar y môr. Yr ydych yn gwybod am y meddwdod mwyn hwn, onid ydych? Nid ydys yn meddwl, nag yn breuddwydio mwy. Mae'r enaid oll yn dianc, ac yn ymdaenu i bob cyfeiriad fel pe bae. Mae dyn yn un a'r wylan sy'n ymsuddo, a throchion yr ewyn sydd yn nofio yn yr awyr rhwng dwy dòn, a'r agerlong sy'n ymbellhau, a'r cwch bychan a'r hwyliau rhuddgoch, a'r cnu o nifwl, a phobpeth ond efe ei hun. O'r oriau hyfryd a dreuliais yn yr ynys—oriau o haner cwsg a chrwydr enaid! . . . .

Yn y dyddiau pan chwythai'r gwynt yn uchel, yr oedd glan y dŵr yn rhy arw imi, ac ymneilltuwn i gyntedd y tloty, cyntedd bychan pruddglwyfus, yn llawn perarogl rhosmari ac *absinthe* gwyllt, ac yno, gan orwedd wrth odre darn o'r hen fur, ymollyngwn yn felus i oresgyniad y syrthni a'r tristwch a ddeuent gyda'r haul i'r cabanod cerrig hyn, agorent oddiamgylch i mi fel beddnodau hynafol.

O bryd i bryd deuai curiad wrth y drws, a naid ysgâfn i'r glaswellt—gafr ydoedd, yn dod i bori yng nghysgod y gwynt. Wrth fy ngweld,

safai'n sŷn o'm blaen, â golwg fywiog arni, a'i chyrn i fyny, gan syllu arnaf gyda llygad plentynnaidd. . .

Tua phump o'r gloch, canai corn y gwyliedyddion, yn arwydd im' fyned at ginio. Yna cymerwn lwybr bychan yn y prysgwydd, gan ddringo'n syth o'r môr, dychwelwn yn araf i'r goleudy, gan droi yn ol gyda phob cam at y gorwel eang o ddwfr a goleuni oedd fel pe'n ymeangu i'r graddau yr esgynnwn.

Wedi cyrraedd y pen yr oedd yn swynol iawn. Gwelaf eto'r ystafell fwyta brydferth, a'i llawr-feini llydain, y gwaith deri ar y mur, y potes yn mygu yn y canol, y drws yn agored led y pen ar y rhodfa wen o'r tuallan, a goleu machlud haul yn ymaillwys i mewn. Yr oedd y gwyliedyddion yno, yn fy nisgwyl, cyn eistedd wrth y bwrdd. Yr oedd yno dri o honynt, un o Marseilles a dau o Corsica—y tri yn fychain a barfog, gyda gwynebau wedi eu lliwio gan yr haul, a rhychiau dyfnion ynddynt, a chochl o groen gafr am bob un o honynt, nes eu gwneud yn debyg i'w gilydd—ac eto yr oeddynt yn eu hystum a'u tymher yn hollol wahanol. Wrth ddull o fyw y dynion hyn, teimlid ar unwaith y gwahaniaeth rhwng y ddwy genedl. Y gwr o Marseilles yn brysur a bywiog, beunydd yn llawn helynt, yn symud yn barhaus, gan redeg drwy'r ynys o fore i hwyr, yn gweithio yn ei ardd, yn pysgota, yn casglu wyau'r adar gwylltion, neu yn ymguddio yn y prysglwyn er mwyn cael cyfle i odro gafr wrth fyned heibio, ac yr oedd ganddo bob amser botes neu rywbeth o'r fath yn coginio ar y tân.

Nid yw'r Corsicaid, o'r ochr arall, yn gofalu am ddim y tu allan i'w gwasanaeth apwyntiedig; edrychant ar eu hunain fel swyddogion, a threuliant eu holl ddiwrnodau yn y gegin yn chware *scopa* yn ddiderfyn, heb aros ond i gael tân yn eu pibellau, gan dynnu wynebau difrif, a thorri daul tybacco gwyrdd â sisiwrn ar dòr eu llaw. . . .

Ar wahan i hyn, yr oedd y tri o honynt, o Marseilles a Corsica, yn ŵyr caredig, syml ac agored, yn llawn gofal am eu lletywr, er yn ddiamheu ei fod yn ymddangos yn foneddwr digon rhyfedd iddynt ar ryw olwg. . . .

Meddyliwch am dano! Dod yma i gau ei hun i mewn yn y goleudy er mwyn ei bleser! . . . A hwythau yn gweld diwrnodau mor hirion, ac mor hapus pan ddelo eu tro i fyned i dir. Yn yr haf, cânt y dedwyddwch hwn bob mis. Deng niwrnod ar y tir am bob deg-ar-hugain yn y goleudy, dyna'r rheol; ond yn y gauaf a'r tywydd garw, nid oes reol y gellir cadw ati. Chwyth y corwynt, cyfyd y dòn, mae *Les Sanguinaires* yn wŷn gan ewyn, a chloir i mewn y gwyliedyddion sydd ar wasanaeth am ddau neu dri mis ambell waith mewn sefyllfa ddychrynllyd.

"Dyma beth ddigwyddodd i mi, syr," meddai'r hen Bartoli un diwrnod ar giniaw, "dyma beth ddigwyddodd i mi bum' mlynedd yn ol, wrth y bwrdd hwn lle'r y'm yn eistedd fel yn awr, ar un noswaith o auaf. Y noswaith honno, nid oeddem ond dau yn y goleudy—myfi a'm cydymaith o'r enw Tchèco. Yr oedd y lleill ar y tir yn mwynhau yspaid o ryddid, nis gwn ragor. Yr oeddem wedi gorphen ciniaw, a phobpeth yn dawel iawn. Yn sydyn dyma'm cyfaill yn aros, gan edrych arnaf gyda rhyw olwg ryfedd yn ei lygaid, ac yn y man syrthiodd ar draws y bwrdd, a'i freichiau ymlaen. Aethum ato; siglais ef, a gwaeddais, "O Tchè! Tchè!" Dim ateb! 'Roedd wedi marw. Gellwch ddychmygu fy nheimlad! Arhosais am fwy nag awr yn syfrdan a chrynedig o flaen y gelain, ac yno daeth y meddwl yn sydyn i'm cof, "Beth am y goleudy?" Ni chefais ond amser i esgyn at y llusern a'i goleuo. Yr oedd y nos eisioes wedi dod. A'r fath noswaith, syr! Nid oedd gan y môr na'r gwynt eu llais naturiol

mwyach. Bob mynud dychmygwn fod rhywun yn fy ngalw o'r grisiau isod. Ac yna'r fath dwymyn, a'r fath syched! Ond ni fynnwn fynd i waered—yr oedd gormod o ofn y marw arnaf. Modd bynnag, gyda thoriad gwawr, daeth ychydig o'm dewrder yn ol. Cludais fy nghydymaith, a gosodais ef ar ei wely, rhoddais orchudd drosto, offrymais ryw fath o weddi fèr, ac yna dychwelais yn gyflym i roi'r arwyddion perygl. Yn anffodus, 'roedd y môr yn rhy arw; ofer y darfu i mi alw, a galw: ni ddeuai neb. Wele fi'n unig yn y goleudy gyda chorff Tchèco druan, a Duw yn unig ŵyr am ba hyd y bûm. Gobeithiais ei gadw gyda mi hyd nes y deua'r llong, ond ar derfyn dau neu dri diwrnod yr oedd hynny'n amhosibl. Beth oedd i'w wneyd? Ei gludo i'r tuallan? Ei gladdu? Yr oedd y graig yn rhy galed, ac y mae cynifer o gigfrain yn yr ynys. Gresyn oedd gadael y truan iddynt hwy. Yna meddyliais am fyned ag ef i waered i un o gabanod y tloty. Cymerodd hynny brynhawn cyfan i mi, a gallaf ddweyd wrthych, yr oedd y gwaith yn gofyn dewrder. Edrychwch yma, syr, pan fyddwyf yn disgyn o'r ochr hon i'r ynys ar brynhawn ystormus, tebygaf deimlo'r marw o hyd ar fy ysgwydddau."

Druan o'r hen Bartoli! 'Roedd y chwys yn dyferu ar ei dalcen, a hynny wrth ddim ond meddwl am y peth.

Felly, wrth hir chwedleua am y goleudy, y môr, llong-ddrylliadau, a charnladron yr ynys, y treuliem ein prydiau bwyd. Yna pan ddelai'r hwyr, cymerai ceidwad y wyliadwriaeth gyntaf ei lamp fechan, cymerai ei bibell, ei ddwfr-lestr, a'i Blutarch mawr ymyl-goch—holl lyfrgell *Des Sanguinaires*, a diflannai drwy ddrws cefn yr ystafell. Yn y man, ni chlywid drwy'r holl oleudy ond swn tincian cadwyni, a thwrw chwerfannau, a phwysau mawr y cloc yn cael eu dirwyn.

Y pryd hwn, awn innau allan i eistedd ar y ddaear gerllaw. Disgynnai'r haul, oedd eisoes yn dra isel, yn gyflymach, gyflymach at y dŵr, gan dynnu'r holl orwel ar ei ol. Ai'r awel yn oerach, oerach, a deuai lliw fioled dros yr ynys. Yn yr awyr hedfanai aderyn mawr heibio i mi, gan gadw'n agos ataf; eryr y tŵr Genoaidd ydoedd, yn dychwelyd i'w lety. Bob yn ychydig, codai tarth o'r môr. Yn fuan iawn ni welid ond brodwaith gwyn o ewyn o amgylch yr ynys. Yn ddisymwth, uwch fy mhen, ffrydiau dylif o oleuni tyner. 'Roedd y llusern fawr wedi ei goleuo. Saethai'r pelydr clir allan, i syrthio draw ar fynwes eang y môr, gan adael yr holl ynys yn y cysgod. Ac yno 'roeddwn yng nghôll yn y tywyllwch, o dan donnau mawrion y goleuni, na wnaent ond fy nghyffwrdd yn ysgafn wrth fyned heibio. Ond oeri'r oedd y gwynt: rhaid dychwelyd i'm preswyl. Wedi ymbalfalu, ceuais y drws mawr, a sicrheais y barrau heiyrn; yna, dan ymbalfalu o hyd, cerddais y grisiau bychain o fetel a grynent ac a swnient dan fy nhraed. Yma, beth bynnag, 'roedd goleuni i'w gael. Meddyliwch am lamp Carcel aruthrol, ag iddi chwe' rhês o babwyr, o gylch yr hon yr oedd ochrau'r llusern yn troi yn araf, rai o honynt wedi eu llanw â chrymwydrau grisial, y lleill yn agor gyferbyn â darnau o wydrau mawr diysgog gysgodent y fflam rhag y gwynt. Wrth fynd i mewn, hanner dallid fi gan y goleuni. Y copr a'r alcan disglaer, y metel gwyn i adlewyrchu'r goleuni, y parwydydd o risial trwchus a droent oddiamgylch gan daflu lliw glas-wawr; 'roedd yr holl ddisgleirdeb hwn a'r holl belydrau claer fel yn gwrthdaro yn erbyn eu gilydd, yn fy syfrdanu am foment. Bob yn dipyn, cynefinai'm llygaid â'r goleuni, ac awn i eistedd hyd yn oed wrth waelod y lamp, yn ymyl y gwyliedydd, oedd yn darllen ei Blutarch mewn llais uchel, rhag iddo fynd i gysgu.

O'r tu allan, 'roedd y gwŷll a'r dyfnder. Ar y llwyfan bychan oedd

"RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD."

YR YMOFYNYDD.

CYLCHGRAWN MISOL Y GYMDEITHAS UNDODAIDD GYMREIG.

GOLYGYDD—

Y PARCH. T. ARTHUR THOMAS, LLANDYSSUL.

"PROFWCH BOB PETH. DELIWCH YR HYN SYDD DDA."

Cyfres yr Ugeinfed Ganrif.

CYFROL 15.

— 1915. —

Llandyssul:
Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer.

CYNWYSIAD.

Adolygiadau, 42, 162, 213.
Addoliad, 62.
Ar Bererindod, 241.
Ar Edyn Ffydd, 1, 49, 169.
Ar y Tróthwy, 31.
Arholiad yr Ysgol Sul, 135.

Bedydd, 214.
Beth gaf fi roi? 51.
Beth yw crefydd? 51.
Bodolaeth ar ol angeu, 2, 28.

Congl yr Awen —
Cariad, 24.
Y Delyn Aur, 30.
Rhaid dringo, 40.
Yr Ardd, 48.
Amnaid, 61.
Dydd Gwyl Dewi, 65.
Dyledswydd, 71.
Cysur mewn trallod, 78.
Emyn Plant, 103.
Wele, yr wyf yn sefyll wrth y drws, 149.
Englynion i bregethwyr yr Enwadau, 176.
Rhyfel, 180.
Croesi'r Bàr, 191.
Yr anocheladwy, 233.
Cloch y Llan, 235.
Ffrwd y Mynydd, 235.
Cymeriad, 235.
Porth y Fynwent, 235.
Suddiad y Lusitania, 263.
Hen benillion, 264.

Catholiciaeth a Phrotestaniaeth, 50.
Cenedl ar ei Gliniau, 47.
Chwedl Darawiadol, 255.
Cilfach a Glàn, 121.
Cologne, Eglwys Gadeiriol, 64.
Cred Undodiaid, 38, 62.
Curiad y galon a mesuriad amser, 134.
Cyfarfod blynyddol, 210.
Cyfarfodydd y Pasg, 114.
Cymanfa Gerddorol Ceredigion, 160.
Cymanfa Ganu Morganwg, 131.

Darllen "Yr Ysgrythyr Lân," 230.
Diwygiad, Y, 21.
Duw, Y syniad am, 38.
Dychweliad Caethiwed Bethel, 16.
Dydd Nadolig, 265.
Dyledswyddau Eglwys, 55.
Dyledswydd yr Eglwys tuag at y Weinidogaeth, 196, 220.
Dyn yr arian byw, 150.

Ebion doeth o enau Ahibur, 47.
Ebion y mis, 175.
Eisteddfod Genedlaethol, Yr, 193.
Evans, Dadorchuddio Cof-lech i'r diweddar J., Gellionen, 161.

Garizim ac Ebal (Pregeth), 104.
Gohebwyr, at ein, 72, 120, 143, 284.
Goleudy *Les Sanguinaires*, 272.
Gweddi, 44, 111.
Gwel'd yr ochr dywyll, 186, 232.
Gwersi ar y mesur byr, 262.
Gwerth rhyddid, 255.

Her i Undodiaid, 113, 208.

Iolo Morganwg, 231.

Jones, y Parch. E. Ceredig, 145.

Lodge, Syr Oliver, 2.
Llandyssul, Rhedyn Plwyf, 87.
Llanw'r Gwanwyn, 97.
Lliwiau Blodeu, 177, 205.
Llyfrau melus adgof, 244.

Manion ac Hanesion, 22, 45, 69, 96, 118, 142, 165, 189, 215, 239, 261, 283.
Marwgofion, 22, 43, 66, 91, 116, 139, 163, 187, 214, 236, 260, 281.
Mathau o Bwdu, 12.
Meddyliau da ar gyfer amseroedd drwg, 20, 49, 63.

Nadolig, 1914, 48.
Nefoedd, 19.
Nefoedd ac Uffern (Pregeth), 79.
Nodion y Mis, 2.

Oddiar y Twr, 25, 153, 173, 256, 267.
Owain Glyndwr, Derwen, 258.

Papyrau Achlysurol, 14, 76.
Pechod Gwreiddiol, 71.
Phiolaid o Ddwfr, 42.
Pobl y cymylau, 184.
Priodasau, 22, 66, 91, 116, 138, 163, 214, 236, 281.
Purdan, 250.

Rhamant y Ffosydd, 234.

Tair Oedfa, 170.
Undod Duw, 39.
Undodaidd, Y Ffydd, 133.
Undodiaeth ar ol y Rhyfel, 200.
Undodiaeth, Hanner Can Pwynt dros, 155, 181, 225, 252, 277.

Y Bregeth ar y Mynydd, 217.
Y dyn a welai'r blodeu, 73.
Y dyn a'r ymenydd aur (Chwedl), 228.
Y dyn a'r Cornet, 5.
Y Llygad sydd yn gweled o hyd, 158.
Ymgnawdoliad, 54.
Ymson y Myfyriwr, 28, 53, 101, 124, 248, 275.
Ymweliad a'r Iseldiroedd, 9, 35, 58, 83, 108, 127.
Yr Awr Ddisglaer, 269.
Yr Eryr a'r Llew, 41.

o gylch y ffenestr, rhuthrai'r gwynt megis ffôl gan udo ar ei ffordd. 'Roedd y goleudy yn crecian a'r môr yn chwyrnu. Ar flaen yr ynys, wrth y mor-gloddiau, swniai'r tonnau fel ergydion o gyflegr. Ar adegau, clywid bys anweledig yn taro wrth gwareli'r ffenestr—rhyw aderyn nos, ddenwyd gan y goleu, wedi dod i ddryllio ei ben yn erbyn y grisial. Yn y llusern ddisglair, boeth, 'doedd dim i'w glywed ond sŵn y fflam, a'r olew yn dyferu, a thincian y gadwyn wrth ei dirwyn; a murmurai llais undonog fywyd Demetrius a Phalera.

Ar hanner nos, cyfodai'r gwyliedydd, gan daflu golwg olaf ar y pabwyr, ac yna disgynnem. Ar y grisiau, cyfarfyddem â'r cydymaith gadwai'r ail wyliadwriaeth yn dod i fyny gan rwbio ei lygaid; rhoddid iddo y dwfr-lestr, a chyfrol Plutarch. Yna, cyn myned i'n gwelyau, aem am enyd i'r ystafell yn y gwaelod,—lle'n dryblith o gadwyni, pwysau mawrion, llestri alcan, cortynau, ac yma, wrth oleuni ei lamp fechan ysgrifennai'r gwyliedydd yn llyfr y goleudy, oedd bob amser yn agored: *Canol nos. Môr cynhyrfus. Tymhestl. Llong allan ar y môr.*

YMSON Y MYFYRIWR.

Dywed un ysgrifennydd cysegredig (o leiaf, un o ysgrifenwyr y Beibl, llyfr yr hwn yw'r lleiaf cysegredig o'r oll o lyfrau'r Beibl)

NAD OES DIM NEWYDD DAN HAUL.

Yr oedd hyn yn wir, yn ddiau, yn yr adeg bellennig honno, tua dwy fil a hanner o flynyddau—mwy neu lai—yn ol. Yr oedd bywyd dyn, y pryd hynny, yn debygol, yn fater syml neillduol—pob dydd yn dwyn gydag ef ei ddyledswyddau syml, a dyledswyddau pob dydd yr un; cysgu a chodi a gweithio a bwyta—dyna'r oll o'r stori; megis yr oedd ddoe, felly y mae heddyw, ac y bydd yfory. Yr oedd y ddedfryd nad oes dim newydd dan haul, iddo ef, felly, yn llythyrennol wir. Eithr pe yn byw heddyw, ym Mhrydain, ar ddechreu'r ugeinfed ganrif, ni fedrai'r ysgrifennydd basio'r fath ddedfryd a'r un a enwyd Adeg y cyfnewidiadau—y newyddbethau—yw ein hadeg ni. Y mae bywyd, yn ein hadeg ac yn ein gwlad ni, lawer mwy amrywiog na bywyd yn un oes flaenorol. A dyry'r amrywiogrwydd hwn fodolaeth i rywbeth newydd yn barhaus—mudiadau newydd, amcanion newydd, dyfeisiadau newydd, dulliau newydd o edrych ar bethau, angenion newydd, ac yn y blaen. Dyma beth newydd hollol, na chlywyd (mi feiddiaf ddweyd) am ei gyffelyb erioed o'r blaen—dirprwyaeth o gynulleidfa yn cael ei danfon at offeiriad i geisio ganddo

BREGETHU PREGETHAU BYRACH

ar foreuau Sul. Ni fu y fath beth a hyn erioed o'r blaen; dyma beth newydd dan haul. Ymddengys, hefyd, ei fod yntau wedi cydsynio, gan sylwi wrth wneud hyny, mai "gwell yw pregeth heb ei digoni (*underdone*) na chinio Sul wedi ei *gor*-ddigoni (*overdone*)." Gŵyr yr offeiriad hwn rywbeth am athroniaeth pregethu a phregethau; hefyd, am athroniaeth cinio Sul—os priodol yw

defnyddio'r gair cysegredig athroniaeth yn y fath gysylltiad materol. Gŵyr hefyd y ffordd i drin pobl, a chyd-ddwyn a'u gwendidau; a mawr hoffwn gael awr o ymddyddan ag ef, yr hyn (chwedl Euclid) sydd amhosibl. Y mae i'r mater hwn ei ochr ddigrifol; ac fe'm temtir i aros ychydig gyda'r agwedd hon o hono. Os yw offeiriad, er enghraifft, yn agored i gael ei flino gan ddirprwyaethau o'r fath hyn, beth am bregethwyr. Fel rheol, nid yw pregeth offeiriad yn hir, er fod eithriadau. Y mae'r pregethwr yn fwy euog o hirwyntedd na'r offeiriad, er fod ambell i bregethwr yn llai hirwyntog nag ereill. Y mae dylanwad esiampl yn cyrraedd ym mhell. Unwaith y daw cynulleidfaoedd i wybod beth wnawd gan un gynulleidfa neillduol mewn trefn i fyrhau pregethau ei hoffeiriad, y mae perygl i'r offeiriad ledu. Ac yna beth fydd tynged y rhan fwyaf o bregethwyr? Gallwn gyffwrdd ag agweddau digrifol ereill; eithr ymataliaf—mor bell ag y medraf. Y mae'r pwnc o fyrdra pregethau—neu, o hyd priodol pregethau yn un rhy bwysig i ymddigrifo ag ef. Y mae hefyd yn bwnc dyddorol iawn.

Faint Ddylai Hyd Pregeth fod?

Hawddach yw gofyn y cwestiwn hwn na'i ateb. Cyn y gellir ei ateb yn foddhaol rhaid rhoi sylw i lawer o ystyriaethau. Yr wyf wedi clywed pregethau o bob hyd—o'r chwarter awr (neu ddeng munyd efallai) i fyny i'r awr a'r awr a chwarter; er nad yn aml yr wyf wedi cael fy nghosbi drwy gael fy ngorfodi i wrando ar bregeth o'r hyd olaf a enwyd. Beth ellir ddyweyd am danynt? Y mae'r bregeth awr ac awr a chwarter, medd rhywun, lawer mwy cynhwysfawr na'r un fèr o chwarter awr neu ugain mynyd. Amheuaf gywirdeb y gosodiad hwn—gwn, yn wir, trwy brofiad chwerw, nad oes gwirionedd ynddo. Ni olyga hyn na all y bregeth hir fod yn gynhwysfawr. Y mae'r bregeth awr yn burion ar achlysuron neillduol, pan y mae'r pregethwr a'r bregeth yn newydd i'r gwrandawyr; er, ar y cyfan, mai'r ddedfryd briodol arnynt yw—

Eu bod yn flinder i'r Cnawd a'r Ysbryd.

Bum mewn profedigaeth o'r fath yn ddiweddar iawn. Am tua hanner awr—efallai ychydig yn rhagor—yr oedd y bregeth yn un o'r goraf a glywais erioed; ond am yr hanner awr olaf nid oedd amgen na geiriau, geiriau, geiriau; amlwg oedd fod y pregethwr yn llefaru heb ddim neillduol ganddo i ddweyd. Yn ystod y rhan gyntaf, tynnwn fy llygaid yn awr ac yn y man oddiar y pregethwr, a thaflwn olwg dros y gynulleidfa, a gwelwn fod pob llygad fel pe wedi ei hoelio wrth y pregethwr, a phob enaid fel pe wedi ei syfrdanu gan ei genadwri a'i hyawdledd; gwnawn yr un peth yn ystod yr ail ran, ac wele, dim ond agor pennau, tynnu oriorau allan o'r llogellau yn llechwraidd, anesmwythyd a difaterwch; arwyddion sicr fod y pregethwr wedi colli ei afael ar y gynulleidfa. Ac eto yr oedd yn parhau i lefaru. Ymddengys ei bod yn fath ar reol anysgrifenedig fod

Pregeth Cyrddau Mawr

i fod o hyd neillduol—o ran amser, ond nid o ran sylwedd. Y mae yn hen bryd i einioes y rheol hon ddirwyn i'r pen. Bu adeg pan oedd pregeth awr a mwy na hynny yn oddefadwy, ond y mae'r adeg hon ar fyned (os nad wedi myned) heibio—hyd yn oed mewn cyrddau mawr. Nid wrth yr hyd yn unig, ond hefyd wrth y lled a'r dyfnder a'r uwchter, y bernir pregeth bellach. Y mae hyn yn wir mewn modd neillduol am bregethau y Sul. Gwaith anhawdd i bregethwr sydd yn gorfod annerch yr un gynulleidfa Sul ar ol Sul am dymor hir yw cadw dyddordeb ei wrandawyr yn agos ar yr un gwastadedd. Ar y cyfan, llwyddir yn dda iawn, yng Nghymru o leiaf, gan

nad beth am y tu allan iddi. Cedwir y dyddordeb yn y genadwri yn rhyfeddol o fyw—nid yw'r bregeth yn colli ei blas, nid yw llais y pregethwr, oddieithr ei fod yn arw iawn, yn colli ei swyn. Y mae rhywbeth yn y Cymro—y mae rhyw elfennau yn ei natur nas gellir eu desgrifio yn gywir—sydd yn ei wneyd yn hoff o bregeth, sydd yn peri iddo gael ei swyno gan lais dynol. Pwy ond y Cymro fedd yr amynedd i eistedd i lawr i wrando ar gyfres o hanner dwsin neu ragor o bregethau yr un diwrnod? Dywed Mr. Lloyd George y dewisa efe wrando pregeth Gymraeg o flaen mynychu cyngherdd neu chwareuaeth. Yn hyn y mae efe yn gynrychiolydd ffyddlon o'i genedl, fel yn wir y mae yn gynrychiolydd ffyddlon o honi mewn cyfeiriadau ereill. Ond y mae'r gofyniad a ganlyn yn teilyngu sylw—ydyw'r bregeth a'r pregethwr yn debyg o gadw'r safle uchel ym marn y genedl y maent ynddo ar hyn o bryd? Dibynna hyn ar y pregethwyr eu hunain. Yr ydym yn byw mewn adeg o nodweddau tra gwahanol i eiddo'r tadau. Gwnaeth y tadau, gyda'u cenadwri a'u pregethau hir, waith ardderchog. Y mae lle i ofni nad ydym ni, o'r genhedlaeth bresennol, yn ei werthfawrogi agos fel y dylem. Eithr ni wna eu cenadwri hwy na'u pregethau hirion y tro mwyach. Y mae'r adeg wedi dod pryd y

RHAID I'R BREGETH GAEL EI BERWI

i lawr hyd tu fewn i gwmpas rhesymol. Os na thelir sylw i hyn, peidied y pregethwyr (a'r offeiriaid hefyd) synnu os y blinir hwynt gan ddirprwyaethau o'r faith a enwyd ar ddechreu ein llith. Nid peth dymunol yw pregeth heb ei digoni mwy nad yw cinio heb digoni yn ddymunol. Gellir osgoi y ddau berygl.

MYFYRIWR.

"HANNER CAN PWYNT DROS UNDODIAETH."

17.—Iesu a'i Oes.

Un o brif ofyniadau heddyw ydyw: *Beth oedd perthynas yr Iesu i'w oes?* Ymha fodd y dylanwadwyd arno gan ei amgylchedd a chan nerthoedd crefyddol a etifeddodd ei wlad a'i genedl o'r gorffennol?

Y MWYAF O'R HEBREAID.—Yr Iesu oedd y mwyaf o broffwydi'r Hebreaid, eu huchelfan a'u gogoniant. Saif mewn cysylltiad hanesyddol uniongyrchol ag Amos, Hosea, Esaia, a Jeremia. Dylanwedid yn ddwfn arno gan grefydd a bywyd ei genedl. Cyn ei amser ef, siaredid eisoes gan dystion Duw am Dadoldeb Duw, dychmygid y meddyldduych o'r bobl oll yn cyd-addoli, a chanfyddid pelydrau bore Teyrnas Nefoedd. Rhoes yr Iesu i'r amgyffredion hyn ystyr newydd a dyfnach. Onid yw geiriau Micah mewn gwirionedd yn Gristionogol mewn ysbryd? 'Pa beth a gais yr Arglwydd gennyt, ond gwneuthur barn, a hoffi trugaredd, ac ymostwng i rodio gyd â'th Dduw?' Collfarna Micah yn rhydd fel dirprwy am foesoldeb y ddefodaeth wag y cyfodai'r Iesu Ei lais i'w herbyn gyda llid cyfiawn.

Deongliadau Newydd.—Cymerwyd dau brif orchymyn yr Iesu o'r hen Gyfraith Iddewig, 'Ceri yr Arglwydd dy Dduw,' a 'Char dy gymydog fel ti dy hun.' Rhoes yr Iesu fywyd newydd ynddynt, darllenodd ystyr newydd iddynt, a rhoes gylch eangach iddynt. Cododd yn uwch na chenedl, gan gymryd golwg eangach a mwy cariadus ar ddynoliaeth.

Plentyn Ei Genedl.—Plentyn ei wlad a'i genedl ei hun oedd yr Iesu. Ni allasai Groeg, na Rhufain, nac unrhyw wlad arall ro'i genedigaeth i'r fath ddyn. Ni allasai hannu ond o Genedl yr Iddew gyda'i hathrylith digymar am grefydd, ei hapêl gyffrous i'r gydwybod a'r enaid, a'i thraddodiad o batriarchod a phroffwydi uchelfrydig. Siaradai'r Iesu wrth yr yspryd moesol a chrefyddol mewn dyn nad yw yn eiddo neillduol unrhyw oes, gwlad, na chenedl; ond yr oedd gan broffwydi Israel y gwelediad cliraf i'r yspryd hwn; a ffurfiai gwybodaeth a phrofiad o Iddewaeth ragarweiniad angenrheidiol i eiriau a gwaith yr Iesu.

A allwn gyfrif am yr Iesu?—Haerir ar droion fel dadl yn erbyn Undodiaeth na all gyfrif am yr Iesu trwy gyfeirio at ei oes neu'i genedl. Ni chymer neb arno y gellir cyfrif am dano drwy gyfeirio'n neillduol (*exclusively*) at ei fonedd a'i amgylchedd. Yr oedd Carlyle yn ei le pan ddywedodd na ellid cyfrif am un dyn mawr. Y mae rhywbeth ynddo sydd goruwch ei amser, neu yn sicr ni allasai ddyfod yn arweinydd dynion. Ymhob dyn mawr y mae yna ryw allu anesboniadwy na ellir ei olrhain a elwir yn bersonoliaeth neu hanfodaeth neillduol, ac ni ellir cyfrif am dano trwy amgylchedd na bonedd.

Anwahanedig oddiwrth Ddynoliaeth.—Gwyddom hyn yn sicr, er fod ein dynion mawr ymhell uwchlaw eu cyd-ddynion, eto gwreiddir hwy yn ein dynoliaeth gyffredin, oddiwrth yr hon ni ellir eu gwahanu. Tra edrychwn o wahanol fannau ar goryn rhyw fynydd enfawr fel y Matterhorn, ymddengys bron fel rhywbeth ar wahan yn hongian yn yr awyr, ond pan gawn olwg gyflawn arno, canfyddwn ei waelod llydan yn y ddaear. Saif Shakespeare ar wahân; ond eto nid oedd yn llai o blentyn ei oes. Mewn unrhyw oes buasai yn fawr, ond gan fyw yn yr adeg pan flodeuai athrylith ddramatig Seisnig, ysgrifenodd chware (*plays*). Yn amser yr Iesu edrychai'r werin i'r dyfodol mewn hyder, wedi'i sicrhau fod Duw ar anfon gwaredwr, Messiah, neu Grist. Nodid yr oes gan frwdfrydedd crefyddol. Dywedai'r Iesu gan siarad am Ioan Fedyddiwr: 'Eithr pa beth yr aethoch allan i'w weled? ai proffwyd? Ie, meddaf i chwi, a mwy na phroffwyd. . . . . Ymhlith plant gwragedd, ni chododd neb mwy nag Ioan Fedyddiwr.' Ni chrea oes athrylith un dyn, ond rhydd gyfeiriad yn aml iddo.

Iesu ac Hanes.—Saif yr Iesu fel meddylwyr a gweithwyr mawr ereill yn llinell hanes. Yr oedd yn ddyledus i'r gorffenol; cododd o'r gorffenol; a doi pob gwirionedd newydd a draddodai o feddwl dynol a ysbrydolid gan Dduw'r Gwirionedd, ei Dad ac ein Tad. Yr oedd ganddo y gallu i fesur anarferol o ganfod a chymryd y goreu a ddysgodd y proffwydi mawr a'r athrawon, gan ei osod allan gyda nerth newydd a byw.

18.—Iesu Mab Joseph.

Cred Undodiaid mai mab Joseph, saer yn Nazareth, a Mair ei wraig, oedd yr Iesu. Daliant yr ategir yr olwg hon yn y Testament Newydd. Credant fod yr Iesu yn ddynol, wedi ei eni fel plant ereill, ac nad ydoedd ei ddyfod i'r byd yn ddigwyddiad 'goruwchnaturiol.'

Yr Enedigaeth Wyryfol.—Gwrthodir gwyrth yr enedigaeth wyryfol ar y tir canlynol: (1) Y mae gennym dystiolaeth Mair ei fam; dywedir wrthym yn Luc ii. 48 y dywedai wrtho, 'Fy mab, paham y

gwnaethost felly â ni? Wele dy dad a minnau yn ofidus a'th geisiasom di.' Os ydyw'r ddywediad hon yn wirionedd, ni all fod amheuaeth nad Joseph oedd ei dad. (2) Buasai Ioan yn sicr o fod wedi clywed am y 'wyrth,' canys wedi marw yr Iesu cymerodd Mair tan ei ofal, ac ni ddywed air am dani, ond cyfeiria'n bendant at Iesu fel mab Joseph. (3) Dywed Paul, yr ysgrifenydd cynharaf yn y Testament Newydd, fod Iesu o had Dafydd yn ol y cnawd. (4) Ceir chwedl y geni yn Matthew a Luc, ond yn yr achresi, dilyn y ddwy efengyl ach yr Iesu o Ddafydd *trwy Joseph*. Y mae braidd yn amhosibl fod y chwedlau-geni a'r achresi yn waith yr un awdur. (5) Efengyl Marc oedd y cyntaf a ysgrifenwyd, ac ni chyfeiria at yr enedigaeth Wyryfol, er ei fod yn amlwg y carai'r ysgrifenydd y gwyrthiol. Dywed y ceisiai Mair a'r plant ereill atal yr Iesu gan gredu ei fod allan o'i bwyll. A fuasai yn rhyfeddu at unpeth a ddywedai neu wnai, pe buasai hanes y 'cyfarchiad' (*annunciation*) yn wir?

Adroddir chwedlau cyffelyb am enedigaethau Gwyryfol arwyr a brenhinoedd ereill yn yr amseroedd gynt. Sefydlir chwedl yr Efengyl o'r enedigaeth wyrthiol y mae'n debygol ar gam-ddeall Isaia vii. 14, 'Wele, morwyn a fydd feichiog ac a esgor ar fab.' Gellir cyfieithu y gair Hebraeg a ddefnyddir yma (al-mah) yn 'wraig briod ieuanc.' Gweler tudalen flaenorol am esboniad helaethach o'r adnod.

19.—Iesu y Dyn.

Cred Undodiaid o ystyried *Iesu fel dyn* y talant iddo y deyrnged uchaf posibl. Pe buasai'n Dduw, ni byddai dim i ryfeddu yn ei waith na'i eiriau, oherwydd y mae popeth yn bosibl gyda Duw. Ond pan ddywedwn iddo gyfarfod profedigaeth i bechu gan ei orchfygu gyda nerth *dyn*; pan ddywedwn iddo, trwy ddiwydrwydd ei ymchwil a phurdeb ei galon, ddod o hyd i wirionedd a gynorthwyodd filiynau o'i gyd-ddynion, rhown iddo y clod uchaf.

Ei Fywyd.—Dechreuodd Iesu ei fywyd, fel y gwnawn oll, yn faban diamddiffyn, a chynyddodd yn gorff-orol ac mewn ffafr gyda Duw a dyn. Y mae'n debyg mai ef oedd cynhaliwr y teulu yn ieuanc iawn. Yr oedd ei serch tuag at ei fam yn dyner iawn. Dywedir tra thynnai ei anadl olaf ar y groes iddo ei rhoddi i ofal y disgybl annwyl. Perthynai i genedl ddewr, ysbrydlawn, ond yn ei amser ef, nid oedd yn genedl rydd ond yn hytrach wedi ei darostwng. Er llawer anhawster, tyfodd i fod yr ardderchocaf, y mwyaf gwir-ioneddol, a'r goreu o feibion Duw—dyn a welodd Dduw, gyda golwg ddigwmwl, ac wedi'i ddatguddio fel y Tad Cyffredin.

Oherwydd mai dyn oedd yr Iesu, carwn ddynoliaeth yn fwy ac yr ydym yn fwy ffyddiog yn ei gallu. Brawd o ddyn ydoedd; troai yn mhlith yr iselaf, a chanfyddai urddas tan ei gwaradwydd. Rhwydd yr adnabyddir y dwyfol yn y Sant neu'r arwr: yr oedd yn arferiad i ddwyfoli Ymerawdwr Rhufain; ond dim ond dyn ag enaid mawr a all weled Duw yn y caeth. 'Cyfaill publicanod a phechaduriaid'—daeth yr hen sarhad yn folawd heddyw.

Esiampl Iesu.—Wedi'i eni o'r genedl ddynol, ef ydyw ein hesiampl fawr. Ymha fodd y gallasai fod yn esiampl i ni pe'n feddiannol ar anian hollol wahanol i ddyn? Ond pan ddywedwn ei fod yn esiampl i ni, ni olygwn y gall un ohonom ddyfod cystal ag ef. Golygwn fod gennym gymhwysterau tebyg iddo at gynnydd ymhopeth da, er na chyrhaeddwn ei uchder ysprydol ef. Dangosodd yr Iesu pa uchelderau ysprydol y gall dyn gyrraedd ond iddo fod yn ffyddlon i'w ddelfrydau goreu. Er cymaint yr ymegnio, ni ennill dyn cyffredin feistrolaeth Shakespeare ar eiriau; er cymaint yr ymegnio, ca'i anhawster cyfartal i ennill ardderch-ogrwydd yr Iesu. Ond pwy a broffwyda i ba uchder y cwyd dynoliaeth yn y diwedd? Ymddengys

fod rhyw obaith mawr wedi meddiannu Paul pan ysgrifennodd, 'hyd oni ymgyfarfyddom oll yn undeb ffydd, a gwybodaeth Mab Duw, yn wr perffaith,'at fesur oedran cyflawnder Crist.'

A OEDD IESU'N DDIBECHOD?—Ymddibynna llawer ar yr ystyr a roddwn i bechod. Gallwn gredu na throseddodd yr Iesu erioed un egwyddor fawr foesol, ond ni allwn gredu fod unrhyw ddyn heb yr ymwybyddiaeth o wendid. Gwyddai'r Iesu'n dda fod eisiau cymorth arno yn oriau'r frwydr foesol, a thrwy hynny troi yn fynych at Dduw mewn gweddi. Gwrthodai hefyd gael ei alw yn 'dda.' Nid oes gyda ni ond cofnodion byr am gyfnod bychan o'i fywyd. Cyfrifir na chofnodir rhagor na phymtheg diwrnod ar hugain o'i fywyd yn yr Efengylau Cydredol, eto y mae'r yspryd a ddangosodd y dyddiau hynny yn gyfryw fel ag i'n cyfreithloni i ddal mai ef oedd y mwyaf a'r ardderchocaf o feibion Duw. 'Ymdrechwch felly i fyw fel y byddai i'r Iesu gymeradwyo'ch bywyd' (J. S. Mill).

GAU DDUWIAU

Mae *pedwar duw* yn Mhrydain Fawr,
Yn cael eu dirfawr barchu ;
Yn lle Duw'r nefoedd, doeth o hyd,
Sy'n dal y byd i fynu.

Mae duw *Balchder* am hardd wisg,
A dyma'i ddysg i ddynion,
Cael trwsio'r corff yn lan bob cam,
'Does gofal am y galon.

Duw y *Digofaint* ydyw un,
Sy'n gyru'r dyn yn ynfyd,
I ladd ei frodyr, plant ei dad,
Drwy dref a gwlad yn waedlyd.

I son yn olaf am dduw'r *Bol*,
Mae fe drwy'r siol yn tagu ;
Y meddw a'r glwth rhag cofio barn,
Gan Grist drwy gadarn allu.

A duw'r *Cybydd-dod* ydyw'r llall,
Mae fe'n cael gwall ar ddynion,
I garu'r byd yn fwy na Duw
Er meddu rhyw ormodion.

Os prinder ar yr yd a ddaw,
Duw'r Bol mewn braw sy'n cwyno,
Na fydd gan bawb ddim peth o werth
I roddi aberth iddo.

Y PARCH EDWARD EFAN, 1716–1798,
Gweinidog Hen Dy Cwrdd, Aberdar.

Allan o "*Afalau'r Awen.*"

Haner can' mlynedd yn ol, ceisio wnai'r pregethwr i enill dynion at Grist drwy ddywedyd wrthynt yr hyn oeddynt yn euog o hono ; heddyw dywedant wrthynt yr hyn y maent yn alluog o hono.

PRIODASAU.

Dydd Sadwrn, Hydref 2, yn Eglwys Undodaidd Brondeifi, ym mhresenoldeb y cofrestrydd, gan y Parch. T. Oswald Williams, B.A., unwyd mewn glan briodas Thomas Rees, Crydyrawel, Craigcefnparc, Clydach-ar-Dawe a Miss Jane Florence Jones, 1, Glandulas Terrace, Llanbedr.

Oes faith heb nos fo hi - oes o hafwen,
Oes o fwyniant drwyddi :
Hedd a roer a blynyddau, Ri !
Laweroedd i Tom a Florie.

Tachwedd 2, yn Rhydygwin, gan y Parch. L. Williams, a'r cofrestydd J. M. Howell, Ysw., Aberaeron, Miss Anne Jane Morgan, Cwm'rodyn, Llanfihangel Ystrad, a Mr. Thomas Albert Morris, Gorsaf-feistr, Talsarn.

Tachwedd 16, yn Mhantydefaid gan y gweinidog, unwyd mewn glan briodas Mr. Benjamin Jones, Llwyncelyn, Tregroes, a Miss Mary Lloyd, Panteg, gynt Graig Gwyon, y ddau o blwyf Llandyssul. Dymunwn Dduw yn rhwydd iddynt ar eu taith newydd.

Tachwedd 27, yng nghapel Allt-yplaca, gan y gweinidog a'r cofrestrydd, unwyd mewn priodas Mr. Henry Jones, Pantybryn a Miss Anne Williams, Plasbach, Alltfawr. Hir oes llwyddianus i'r ddau.

MARWOFION.

Hydref 12, ar ol cystudd byr, ond caled, bu farw John Davies, 3 Drovers Road, Llanbedr, yn 64 oed. Llythyr-gludydd ydoedd yr ymadawedig, o Lanbedr i ardal Llanwnen a Blaencwrt. Bu yn ffyddlon a didwyll i'w alwedigaeth am yspaid maith o 25 mlynedd. Annibynwr ydoedd o ran ei ddaliadau crefyddol, ac yr oedd yn un o'r aelodau ffyddlonaf a feddai eglwys Soar, ond cyfranai yn flynyddol tuag at yr achos Undodaidd yn Mrondeifi. Gedy i alaru ar ei ol, priod, dwy ferch, a pherthynasau eraill a chyfeillion lawer. Yr oedd yn briod hawddgar, yn dad tyner a gofalus, yn gyfaill ffyddlon a chywir, ac yn gymydog gonest. Claddwyd yr hyn oedd farwol o hono yn mynwent Brondeifi y Sadwrn canlynol, pryd y daeth torf fawr o bell ac agos i dalu y gymwynas olaf iddo. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan y Parchn. Gwernogle Evans, (A.), Evan Evans (A.), D. Jones, (B.), a T. Oswald Williams, gweinidog Brondeifi. *Cyfaill.*

Tachwedd 4, yn 55 mlwydd oed, Mrs. Elizabeth Thomas, Ffynonoer, Llanfihangel Ystrad. Bu yr ymadawedig yn gystuddiol am fisoedd. Treuliodd ei hoes yn ddiwyd iawn, a gwnaeth wasanaeth mawr yn ei hardal fel gwniadyddes. Yr oedd yn gymydoges ragorol, a derbyniodd llawer un mewn benaint ac afiechyd dynerwch mawr oddiar ei llaw. Yn yr ardal hon yr oedd wedi byw er pan yn ieuanc, a theimlir lle gwag ar ei hol yn yr ardal ac hefyd yn eglwys Rhydygwin, lle yr oedd yn aelod ffyddlon. Gweiniwyd arni yn ofalus ac yn dirion gan ei chwaer oedd yn cartrefi ganddi, ac hefyd gan ei mherch. Claddwyd y Llun canlynol yn Rhydygwin. Gwasanaethwyd

gan y gweinidog, a chynorthwywyd gan y Parchn. J. D. Evans, Rheithor Eglwyswen, Sir Benfro, a D. Evans, Cribyn. Gadawodd fab a merch, dwy chwaer, a pherthynasau agos eraill, i alaru yn fawr ar ei hol.

TACHWEDD 6, wedi cystudd maith, yn 40 mlwydd oed, Eleanor Morgans, gwraig Thomas Morgans, Penlanganol, plwyf Llanwenog. Claddwyd y Mercher canlynol, yn mynwent Capelybryn. Pregethwyd ar yr achlysur yn y capel, i glywedigaeth tyrfa luosog, gan y Parch. E. Glyn Edwards, a chynorthwywyd ef yn y rhanau defosiynol gan y Parchn. J. Davies, T. A. Thomas, a D. Evans. Gadawodd yr ymadawedig ei phriod, 11 o blant, ei mam dyner oedranus, a dau frawd, i alaru'n ddwys ar ei hol. Yr oedd yn chwaer i'r Parch. D. G. Rees, Gellionen. Nerth a gaffont oll i alaru'n gymedrol.

TACHWEDD 11, yn 72 mlwydd oed, Mr. Evan Jones, Pensarn, Drefach, Velindre. Yr oedd yr ymadawedig yn wr tawel ac heddychol iawn, a hawdd y gallesid ei alw yn 'fab tangnefedd.' Nid oedd yn caru ymyraeth â materion pobl eralll, ond bob amser yn byw yn ei gylch ei hun. Yn gymydog anwyl, a hoff gan bawb o'i gydnabod. Undodwr ydoedd o ran ei grefydd, ac efe oedd yr unig aelod oedd yn perthyn i'r enwad yn y capel bychan yn Penrhiw. Byddai yn myned i fyny i Llandyssul i gymuno gyda'i frodyr, lle yr oedd yn ddiacon, a bryd arall byddai gwasanaeth yn cael ei gynal yn y capel uchod. Bu felly yn ffyddlawn iawn yn ei holl gylch, a phriodol oedd testyn ei weinidog, y Parch. Arthur Thomas, Llandyssul, yn ei anglad—'Da was, da a ffyddlawn, buost ffyddlawn ar ychydig; dos i fewn i lawenydd dy Arglwydd.' Dydd Mawrth, daeth torf o berthynasau a chyfeillion ynghyd i'w hebrwng i orphwys i'r gladdfa yn nghapel Penrhiw, yr hon oedd yn ymyl ei gartref, lle hefyd yr oedd ei anwyl briod yn tawel huno. Gwasanaethwyd yn y ty gan y Parch. D. Jenkins, rheithor Penboyr, ac yn y capel cafwyd pregeth gan ei weinidog fel y cyfeiriwyd. Ar lan y bedd siaradwyd gan y Parch. T. Davies (B)., Drefach, a gorphenwyd drwy weddi ganddo. Gadawodd yr ymadawedig dair merch anwyl mewn galar a hiraeth am un fu yn dad tirion a gofalus o honynt dros ei oes. Nawdd y nef iddynt hwy eto yn y dyfodol, a bydded cysgod yr aden ddwyfol yn glyd drostynt yn y brofedigaeth o golli eu tad, gan gofio fod Tad yr amddifaid eto yn fyw. -*O'r Faner.*

TACHWEDD 17, yn 78 oed, bu farw David Thomas, Temple Buildings, Cribyn, gynt o Bryncessig, Dihewid, yn ddisymwth iawn. Yr oedd allan yn y pentref yn ystod y prydnawn, ac i bob ymddangosiad mewn meddiant o iechyd da; cyn yr hwyr, neu ym min yr hwyr, yr oedd wedi ymadael. Ganwyd ef yn Cwmiago, ger Cribyn, ac yr oedd yr hynaf o wyth o blant. Symudodd oddiyno gyda'i rieni i Fryncessig, lle y dilynodd ei alwedigaeth fel amaethwr hyd ychydig flynyddau yn ol, pryd yr ymneillduodd, ac y daeth i fyw i'r Cribyn. Ar ei sefydliad yn y pentref, ymaelododd yn y capel, a bu yn ffyddlon hyd y caniatäi ei iechyd iddo. Gadawodd bedwar brawd mewn hiraeth ar ei ol. Perchid ef gan ei gydnabyddiaeth ar gyfrif ei ddiniweidrwydd a'i rodiad diargyhoedd. Claddwyd ei weddillion ym mynwent Cribyn, dydd Sadwrn canlynol, pryd y daeth tyrfa luosog ynghyd i dalu iddo y gymwynas olaf. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. D. Evans, gweinidog y lle, gyda chynorthwy y Parch. B. Carolan Davies.

TACHWEDD 29, yn 81 mlwydd oed, bu farw y Parch. Nestor Rayson Williams, cyn-weinidog Twyn-yr-Odyn, Merthyr, o 1860--94. Treuliodd y blynyddoedd wedi ei ymddeoliad o'r weinidogaeth yn Merryvale, Narberth, Penfro. Hyderwn gael bywgraffiad o hono yn ein rhifyn nesaf.

MANION AC HANESION.

CAERONEN.—Cynhaliwyd Cyfarfodydd Diolchgarwch am y Cynhaeaf yn y lle hwn prynhawn a hwyr Mawrth, Hydref 12. Pregethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins, Mr. John Jones, Ffynon-ddewi, a'r gweinidog.——Ar y Sul, Hydref 10, cyflwynwyd côd o aur i'n hen weinidog, y Parch. R. C. Jones, tros yr eglwys gan Miss Anne Davies, Llwynifan Cottage, fel dangoseg fechan o'u diolchgarwch iddo am ei ffyddlondeb am yn agos i bum mlynedd a deugain.—Yr un prynhawn hefyd cyflwynodd Mr. John Jones, Pantybyr, Feibl hardd yn anrheg i Mrs. James, Llanbedr, organyddes ffyddlon yr eglwys am flynyddoedd, ar achlysur ei phriodas.

BRONDEIFI.—Cynhaliodd Eglwys Brondeifi ei Chwrdd Diolchgarwch am y Cynhaeaf nos Fercher, Hydref 13, a phregethwyd i gynulleidfa luosog iawn gan y gweinidog.

DOWLAIS.—Hydref 21ain, cynhaliwyd yr Wyl De Flynyddol, a throdd allan yn llwyddianus iawn. Bu oddeutu tri chant yn eistedd wrth y byrddau yn ystod y prydnawn. Gwasanaethwyd wrth y byrddau gan y boneddigesau canlynol: Misses Davies, White Street; Mrs. a Miss Evans, Overton Street; Miss Lewis, Salford House; Miss Jones, Bryntirion Street, a Mrs. Daniels, Spring Street. Cynorthwywyd gan Mr. Morgan Evans, Dowlais Top; Mri. D. O. Evans, a Spencer Jones, Merthyr. Daeth nifer luosog o gyfeillion o Aberdar, Cefn, a Merthyr, ac y mae diolch gwresog yn ddyledus i bawb am eu gwasanaeth a'u cefnogaeth.

INDEX PURGATORIES.—Dywedir fod tri o lyfrau y Proffeswr enwog, Bergson, o Ffrainc, newydd eu gosod ar yr Index. Ofnadwy, onide! Rhy ddiweddar, fodd bynag, yw hi heddyw, rhy ddiweddar o ganoedd o flynyddoedd, i fod o un niwed i Bergson, nac o un gwasanaeth hyd y nod i'r Pab a'i bleidwyr. Nid tebyg y dychrynir Bergson o gwbl. Ni chredwn y cyll awr o gysgu oblegid fod ei lyfrau wedi eu gosod ar yr Index. Ni synem glywed ei fod yn llawenychu. Mae'n *advertisement* ardderchog a *cheap* hefyd. Y mae amser llosgi llyfrau hereticiaid ac amser llosgi'r hereticiaid eu hunain wedi myned heibio am byth. Gwnawd llawer o hyny yn y gorphenol. Yr oedd gymaint yn haws llosgi dyn na'i ateb, a'i argyhoeddi ei fod yn cyfeiliorni. Arferai'r Pabyddion losgi hyd y nod y Beibl un amser. Adroddir am Tonstall, esgob Llundain, fod yn well ganddo losgi llyfrau na llosgi dynion. Pan ar ei daith drwy Antwerp yn 1529, cafodd cyfleusdra i osod ei ddewisiad mewn grym. Yr oedd cyfieithiad Tyndal newydd ei gyhoeddi. Cyflogodd Tonstall rywun i brynu'r holl gopiau. Yr oedd Tyndal yn falch iawn i'w gwerthu. Yr oedd amryw wallau yn y cyfieithiad, ac fe roddai hyny gyfleusdra iddo i'w ddiwygio. Llosgwyd y llyfrau a chawd arian da am danynt. Cyhoeddodd Tyndal argraffiad newydd diwygiedig. Fel canlyniad i'r llosgiad, cododd awydd yn mhlith y bobl i ddarllen y Testament.

PAN fyddai Esgob Aylmer yn canfod ei gynulleidfa yn gwrando yn ddifater, arferai adrodd iddynt adnodau yn Hebraeg, a rhyfeddai y gynulleidfa wrth ei glywed. Yna cymerai yr esgob y cyfleusdra i'w cyfarch, a dangos y ffolineb iddynt wrando yn astud yr hyn nad oeddynt yn ei ddeall tra yn esgeuluso talu sylw i'r hyn allai fod o fendith iddynt.

PAID byth a gwneyd y dyn hwnw yn gyfaill i ti, yr hwn sydd yn cashau cerddoriaeth a chwerthiniad plentyn.

Nid y rhai sy'n tuchan fwyaf
Sydd bob amser druenusaf.

AT EIN GOHEBWYR.

J.J.—Mae yr Ararat, y mynydd y dywedir i'r Arch gael gorphwysfa arno, yn Armenia. Mae yn ddau fryn, y naill yn 17,000 troedfedd o uchder, a'r llall yn 13,000, a'r ddau o darddiad Volcanaidd. Mae Armenia fel gwledydd eraill y Beibl heddyw yn faes rhyfel erchyll.

ARNO.—Os am wybod amcan beth yw Undodiaeth ni ellwch wneud dim yn well na darllen y gyfres erthyglau a ymddangosant o fis i fis yn YR YMOFYNYDD yn bresenol. Yr awdwr yw y Parch. Alfred Hall, M.A., a'r cyfieithydd yw y Parch. T. Oswald Williams, B.A. Hyderwn gyhoeddi yr ysgrifau yn llyfryn cyn bo hir.

CWLTWR.—Yr ydych yn gofyn pwy oedd yr Attila y cyfleir ei enw i'r Caisar? Efe ydoedd brenin yr Hunniaid, y rhai ddifrodasant ran fawr o wledydd Ewrop yn y bumed ganrif. Edrychir arnynt fel y bobl mwyaf anwaraidd a chreulon y mae hanes am danynt. Esgusodwch ni am ddweyd nad ydym yn caru y ffugenw ydych wedi ddewis.

THOMAS.—Y gwir ddywedwch. Mae'r Dardanelles wedi profi yn gneuen anhawddach ei thori nag a feddyliodd yr awdurdodau. Mae ei hyd 40 milldir, a'i lled o un i bump. Croesodd Xerxes hi drwy wneyd pont o bum mil o fadau, 400 cyn Crist. Dywedir yr arferai Leander nofio'n groes bob nos i ymweled a'i gariad, ond boddodd yn y diwedd.

AMOS.—Yr hyn gyfeirir ato gan y gair Armageddon, sydd mor fynych yn newyddiaduron y dydd, yw'r frwydr dybiedig olaf rhwng da a drwg, yr hwn benderfynir ar ddydd mawr y Farn. Yr awgrymiad yw, a'r gobaith hefyd yw, mai y rhyfel ofnadwy presenol fydd yr olaf. [Gwel Llyfr y Datguddiad.]

R.J.J.—Ni wyddis ddim heddyw yn mha fan yn Nghastell Hywel y cadwai Mr. Davis ei ysgol. Dywedir fod yno gae adwaenir hyd heddyw fel cae Davis. Cadwai geffyl yno yn hir wedi iddo rhoi heibio amaethu Castell Hywel.

GWIL.—Yr ydych yn cymysgu dau air o ystyr gwahanol iawn. Yr Arminiaid oeddynt ganlynwyr James Arminius, yr hwn ymwrthododd â Phump Pwnc Calfin, ac a gredai yn rhyddid yr ewyllys, ac y gallai dyn gael ei achub os ewyllysiai. Yr Armeniaid yw trigolion Armenia, y rhai ydynt heddyw yn wrthrychau erledigaeth echryslawn y Twrc.

RHYS.—Gofynwch beth yw ein syniad yn awr am y Parch. R. J. Campbell? Nid yw ein syniad am dano wedi cyfnewid, na'n edmygedd o hono wedi lleihau pan y gadawodd yr Annibynwyr ac yr aeth i Eglwys Lloegr. Credwn ei fod yr un mor onest a chydwybodol yn hyn a phan y gadawodd yr Eglwys ac yr ymunodd a'r Annibynwyr. Dyna ein syniad ni am dano, a dymunwn Dduw yn rhwydd iddo. Os yr ydym yn camsynied, mater i Mr. Campbell ei hunan ydyw. Ond os mai yr hyn awgrymwch chwi sydd yn wir, sef iddo newid ei gyfundeb er mwyn amcanion bydol, ac i gael trwydded i droi mewn cylch uwch o gymdeithas, ni fyddai genym ond y dirmyg mwyaf posibl tuag ato, ac at bawb wnant grefydd yn llaw-forwyn er enill bri bydol. Yn wir y maent yn derbyn eu gwobr.

J. D. Lewis, Argraffydd, Gwasg Gomer, Llandyssul.

NEW SERIES OF

Modern Handbooks of Religion.

Cr. 8vo. 256 pages. Two Shillings each net.

Books illustrative of the Principles and Faith of those who find the seat of Authority in Religion not in Church or Creed but in the Mind and Conscience and Experience of Mankind.

Volumes now ready.

Religion as affected by Modern Science and Philosophy. By Stanley A. Mellor, M.A., Ph.D.

Religion in Social and National Life. By H. D. Roberts.

The New Testament in the Light of Modern Knowledge. By H. Mc Lachlan, M.A., B.D.

Communion of Man with God. By R. Nicol Cross. M.A.

THE LINDSEY PRESS, 5. Essex St., Strand, London, W.C.

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

. . Fruit Trees, Roses and Shrubs. . .

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1875.)

Nurseryman, Seedsman and Florist, Carmarthen.

Telegrams—Coysh, Carmarthen.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s., including Free Laundry; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Lacrosse.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., T. B. Taylor, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Miss C. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq.

Feed Your Children

With WELSH PORRIDGE, made from

PURE WELSH OATMEAL.

The greatest MEDICAL EXPERTS say it is the most nourishing — food for everybody. —

Order to-day from the Manufacturers—

T. E. JONES & CO., LLANDYSSUL.

The London City and Midland Bank Limited,

WITH WHICH IS INCORPORATED THE

NORTH AND SOUTH WALES BANK.

—ESTABLISHED 1836.—

Directors:

SIR EDWARD H. HOLDEN, BART., (Chairman and Managing Director).
WILLIAM GRAHAM BRADSHAW, ESQ., LONDON (Deputy-Chairman).

The Right Hon. Lord Airedale, Leeds.
Sir Percy Elly Bates, Bart., Liverpool.
Robert Clover Beazley, Esq., Liverpool.
Sir William Benjamin Bowring, Bart., Liverpool
John Alexander Christie, Esq., London.
David Davies, Esq., M.P., Llandinam, Mont.
Frank Dudley Docker, Esq., C.B, Birmingham
Frederick Hynde Fox, Esq., Liverpool.
George Franklin, Esq., Sheffield, Esq.
H. Simpson Gee, Esq., Leicester.
John Howard Gwyther, Esq., London.
John Glasbrook, Esq., Esq., Swansea.
Arthur T. Keen, Esq., Birmingham.
Frederick William Nash, Esq
The Right Hon. Lord Pirrie, K.P., London
The Right Hon. Lord Rotherham, Manchester
Thomas Royden, Esq., Liverpool.
Sir Joseph Weston-Stephens, Bristol.
William Fitzthomas Wyley, Esq., Coventry; Sir Guy Douglas Arthur Fleetwood Wilson, K.C.B., K.C.M.G., G.C.I.E.

Subscribed Capital .. £22,947,804. **Paid up Capital .. £4,780,792 : 10 : 0.**

Reserve Fund .. £4,000,000.

BRANCHES AND AGENCIES IN CARDIGANSHIRE AND CARMARTHENSHIRE:—

Aberayron, Aberystwyth, Aberporth, Ammanford, Brynamman, Cardigan, Carmarthen, Cross Hands, Crymmych, Drefach, Kidwelly, Lampeter, Laugharne, Llanon, Llanboidy, Llandilo, Llandyssul, Llanelly, Llanybyther, Newcastle Emlyn, New Quay, Pencader, Pontardulais, Pontrhydfendigaid, Pontyberem, St. Clears, St. Dogmael's, Tregaron, Whitland.